

Mewn Cysylltiad



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

Nadolig 2019

Gwella Cartrefi, Newid Bywydau

Nadolig Llawen



Wrth i ni agosáu at ddiwedd 2019, mae'n amser da i rannu rhai o lwyddiannau'r flwyddyn, i'n hatgoffa ein hunain am yr hyn a wnawn a sut mae Gofal a Thrwsio yn gwneud gwahaniaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaeth hanfodol sy'n cefnogi llesiant pobl hŷn. Drwy ganolbwyntio ar sut i wneud eu cartrefi yn gynnes a diogel, rydym yn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gostwng risg baglu a syrthio, atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd cartrefi oer a llaith a helpu ein cleientiaid i wneud cais am fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Diolch i lawer o'n llu o gefnogwyr a chyfeillion am fedru gwneud cymaint a gwella bywydau cynifer o bobl hŷn ar draws Cymru. Gyda'n gilydd gallwn - a rydym - wneud gwahaniaeth go iawn.

Diolch i chi am fod yn Gyfaill Gofal a Thrwsio ac am gefnogi ein gweledigaeth o Gymru lle gall pobl fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes ac addas.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi...

Helpu 46,117 o bobl hŷn ar draws Cymru

Helpu i sicrhau gwerth £7.4m o fudd-daliadau nad oeddent yn cael eu hawlio'n flaenorol

Darparu gwerth £16.5m o atgyweiriadau cartref

Helpu i atal 36,609 o bobl rhag baglu a syrthio

Codi £333,782 o gyllid elusennol ar gyfer atgyweirio cartrefi

Hoffem ddymuno Nadolig Llawen iawn a dymuniadau gorau ar gyfer y Flwyddyn Newydd gan bawb yn Gofal a Thrwsio.



TU MEWN...

Eitemau gweu Nadoligaidd i ddweud "diolch"

Helpu pobl hŷn i gadw'n gynnes a diogel





Eitemau gweu Nadoligaidd i ddweud "diolch"



Pan ddaeth gŵr Maureen yn wael a'i chael yn anodd symud o amgylch y tŷ, camodd Gofal a Thrwsio i mewn a gosod nifer o ganllawiau, y tu mewn a'r tu allan, ail fanister ar y grisiau a gwneud nad oedd unrhyw beryglon eraill a allai achosi i Robert faglu.

"Rwyf mor ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cyngor gan Gofal a Thrwsio ac roeddwn eisiau gwneud rhywbeth i ddangos fy ngwerthfawrogiad. Rwyf bob amser wedi mwynhau pethau a gyda'r Nadolig heb fod yn rhy bell i ffwrdd, penderfynais y gallwn weu ychydig o Bwdinau Nadolig ac adar Robin Goch i'w gwerthu i berthnasau a ffrindiau i godi ychydig o arian."

Daeth y gweu yn brosiect teuluol mewn dim o dro gyda Carolyn a Claire, dwy ferch Maureen, yn ymuno. Dywedodd Carolyn wrthym 'Mae Mam bob amser wedi bod yn berson creadigol ac fe wnaeth drosglwyddo ei chariad o grefftiau i ni. Roedd gwybod fod Dad yn medru byw'n ddiogel adre a bod yn llai tebyg o syrthio yn ryddhad mawr i ni, felly wrth gwrs roeddem eisiau helpu Mam i godi ychydig o arian ar gyfer yr elusen.'

Mae'r eitemau Nadoligaidd wedi codi dros £100 hyd yma gyda mwy'n dal i gael eu gwerthu.



Peidiwch anghofio...

Os oes gennych Bas Bws, mae angen i chi ei adnewyddu erbyn diwedd y flwyddyn
www.tfw.gov.wales/travelcards

Helpu pobl hŷn i gadw'n gynnes a diogel

"Diolch yn FAWR" i bawb a gefnogodd Her Nadolig Big Give Gofal a Thrwsio 2019. Fe wnaethom godi £1,000 ar gyfer ein Cronfa Caledi Cartrefi lach i Bobl Hŷn.



Diolch yn arbennig i Wales & West Utilities am eu harwerthiant teisennau a raffl a gododd £340 ar gyfer Cronfa Caledi Cartrefi lachach i Bobl Hŷn.

Dywedodd Elaina Cook o W&WU: "Rydym yn cefnogi Apêl Big Give Gofal a Thrwsio i godi arian ar gyfer cronfa galedi Cartrefi lach i Bobl Hŷn fydd yn helpu cleientiaid na all ganfod cyllid i dalu am waith i wneud eu cartrefi'n ddiogel a chynnes.

"Bydd y gronfa yn helpu pobl fel Mrs Smith, 89 oed, a gafodd fynd adre'n ddiweddar ar ôl bod yn yr ysbyty am dri mis ar ôl syrthio yn ei chartref.

Gofynnodd nyrs ardal i Gofal a Thrwsio ymweld â Mrs Smith oherwydd fod y tŷ yn teimlo'n oer a drafftig. Gwelodd y gweithiwr achos nad oedd y gwres canolog yn gweithio ac roedd Mrs Smith yn dibynnu ar un tân trydan i aros yn gynnes. Oherwydd ein cronfa caledi, bu modd i ni dalu i beiriannydd nwy i ymweld a thrwsio'r boeler gwres canolog y trannoeth.

Dywedodd Mrs Smith wrthym: "Mae fy nghartref yn awr yn hyfryd a chynnes; dyw e ddim wedi teimlo mor dwym â hyn ers blynnyddoedd. Rwy'n siŵr mai un o'r rhesymau pam i mi syrthio yn y lle cyntaf a gorfod mynd i ysbyty oherwydd mod i'n oer."

Ffoniwch ni ar **0300 111 3333** neu e-bost enquiries@careandrepair.org.uk
www.careandrepair.org.uk

ddod o hyd i ni ar

